**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

472/56

**HANES – HI2**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH O GYFNOD 6**

**AGWEDDAU AR HANES EWROP, tua 1618-1763**

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **un** cwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 6

## AGWEDDAU AR HANES EWROP, tua 1618-1763

*Atebwch* **un** *cwestiwn.*

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongliad, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried y ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y lluniwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Teyrnasiad Philip III a Philip IV, 1614-1665**

'Er bod Philip yn gydwybodol a galluog, doedd dim grym cymeriad ganddo a dim llawer o dalent rheoli. Roedd yntau, o'r dechrau, yn ddim ond clai yn nwylo ei ffefryn, y Dug Olivares.'

[E. N. Wilson, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, yn ysgrifennu mewn llyfr hanes cyffredinol, *The Ancien Regime in Europe* (1970)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o lywodraeth Sbaen yn ystod teyrnasiad Philip IV? [80]

**2. Ffrainc, 1624-1661: Richelieu a Mazarin**

'Roedd Richelieu yn wleidydd arbennig o lwyddiannus, a'i ddulliau'n seiliedig ar gyfuniad doeth o ddiplomyddiaeth a grym milwrol.'

[Stephen Lee, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop, yn ysgrifennu mewn llyfr ar hanes cyffredinol Ewrop, *Aspects of European History, 1494-1789* (1978)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o bolisïau'r Cardinal Richelieu? [80]

**3. Pedr Fawr, 1696-1725**

'Pedr oedd dy Samson, O Rwsia! Fe gafodd di a thithau heb fawr o gryfder ac fe adawodd di'n gryf fel craig. Pedr oedd dy Foses, O Rwsia! Onid yw ei ddeddfau fel tarian gref Cyfiawnder sy'n rhwystro troseddau?'

*(Mae'r cyfeiriadau hyn at ffigurau o'r Beibl – roedd Samson yn enwog am ei gryfder a Moses am ei ddoethineb a'i alluoedd fel deddfwr)*

[Rhan o werthfawrogiad o deyrnasiad Pedr Fawr, a roddwyd ar achlysur ei angladd gan Archesgob Novgorod (28 Ionawr 1725)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o deyrnasiad Pedr Fawr? [80]